# YMGYRCH CYMRU

Pris: 15c PAPUR CND CYMRU AR GYFER GRWPIAU Rhif 30 TACHWEDD, 1986

## YMGYRCH CYMRU y dyfodol

Penderfynwyd newid dosbarthiad Ymgyrch Cymru a'i wneud yn gylchlythyr ar gyfer pob aelod o CND Cymru - gall hyn hefyd olygu peth newid yn y fformat a'r cynnwys.

Canlyniad argymhellion gweithdy yn y Cyngor diwethaf yw'r penderfyniad hwn. Fe'i cyhoeddir bob deufis ac yn ogystal â chael ei anfon at yr holl aelodau, bydd ysgrifenyddion grwpiau, mudiadau sy'n aelodau o CND Cymru, a phapurau newyddion Cymru oll yn derbyn copi hefyd. Bydd copiau ychwanegol ar gael i'w gwerthu i'r sawl nad ydynt yn aelodau

Gobeithiwn, yn y modd hwn, gyrraedd mwy o bobl a lledaenu'r neges yn ehangach. Ni fydd y newidiadau hyn yn gwneud gwahaniaeth i'r trefniadau â Llundain, gyda grwpiau'n derbyn 4 copi o 'Campaign' CND Prydain, a gobeithir y bydd tudalen o wybodaeth a newyddion am Gymru yn cael ei gynnwys ynddo bob mis.

A gawn, unwaith eto, gymryd y cyfle hwn i ofyn i chi gyfrannu i 'Ymgyrch Cymru' ar ei newydd wedd, a diolch i chi am eich cefnogaeth yn y gorffennol.

Grwp Golygyddol,
Plas Bodhyfryd, Waunfawr,
Caernarfon, Gwynedd.

## diolch Sue

Rydym yn llongyfarch Sue Pitman ar gael ei phenodi'n ddiweddar yn swyddog 'Heddwch a Materion Niwcliar' i Gyngor Lambeth yn Llundain.

Yn anffodus eu hennill nhw ydy'n colled ni ac bydd hiraeth mawr ar ei hol yn ein mysg ni yn CND Cymru a thrwy'r holl Fudiad Heddwch yng Nghymru.

Wrth golli ei bys yn ystod Ymgyrch Byncar Caerfyrddin gwnaeth hi aberth fawr nad aiff yn angof. Hefyd ar ol iddi dreulio dwy flynedd a hanner fel trysorydd CND Cymru mae tipyn gwell golwg ar ein sefyllfa ariannol.

POB HWYL SUE - A DIOLCH

# BANER NEWYDD




**Mae CND Cymru yn ymgyrchu i atal y ras arfau. Mae arnom angen eich cefnogaeth a'ch arian i'n cynorthwyo. Ymunwch â CND Cymru 'rwan.**

## Penderfynais ymaelodi ag CND Cymru

Enw .................................................. (Llythrennau bras)

Cyfeiriad ..................................................

..................................................

Sir .............................. Côd Post .............................. (Pwysig)

AELODAETH
Oedolyn £9. Dau berson yn yr un cyfeiriad £12. Myfyriwr £3.
Heb waith a phensiynydd £2. Ieuenctid CND (21 neu iau) £1.

Dymunaf roi rhodd. Amgaeaf £............ Aelodaeth. £............ Rhodd.

Gwneier sieciau'n daladwy i : CND Cymru a danfoner i
CND Cymru, 2 Plasturton Avenue, Pontcanna, Caerdydd CF1 9HH.

CND CYMRU

# Reykjavik a'r cynllun Arfau yn y Gofod

## gan John Cox

Byddai'r cytundeb agos yn Reykjavik wedi haneru arfau stategol Rwsia ac America (ICBM a SLBM) ac wedi cael gwared a holl daflegrau SS-20, Pershing a Cruise o Ewrop. Methodd y cyntundeb oherwydd i Reagan fynnu bod yr Unol Daleithau yn parhau i ddatblygu Cynllun Arfau yn y Gofod (Star Wars), tra mynnai Gorbachov na dylid datblygu sistem arfau newydd.

Pa mor agos oedd cytundeb? Pell iawn, mae arnaf ofn. Tra'n ymfalchio yn y camau ymlaen a welwyd yn Reykjavik, ni ddyleu rhoi pris rhy fach ar y bwlch sy'n dal i fodoli, a'r dasg sy'n wynebu'r mudiad heddwch.

Camp fawr Reykjavik oedd dramateiddio'r posibilrwydd o ddiarfogi - yn bennaf, rhaid dweud, oherwydd diplomyddiaeth y Sofietiaid. Rydym nawr yn gweld ffrwyth newid diweddar yn strategaeth Sofietaidd tuag at roi terfyn ar y ras arfau, a welwyd gliriaf yn araith Gorbachov ar 15fed Ionawr eleni. Wrth egluro parhad y moratoriwm Sofietaidd ar brofion niwcliar (a adnewyddwyd am 6 mis pellach ers hynny) dywedodd: "mae'n bryd rhoi heibio meddylfyd oes y cerrig pan boenai rhywun am gael y ffon fwyaf neu'r garreg drymaf".

"Petai rhywun yn dilyn 'rhesymeg' arferol y ras arfau dyna, mae'n debyg, a fyddai'r peth i'w wneud (h.y. ail-ddechrau profion) . . . rhaid ymwrthod yn llwyr â'r rhesymeg hwnnw. Neu fe fydd proses gelyniaeth filwrol yn mynd yn anfeithiol, a bydd unrhyw reolaeth dros resymeg digwyddiadau yn amhosib. Ni ellir caniatau i rym anarchaidd y ras arfau niwcliar."

Dengys datganiadau fel hyn, a gweithrediadau drwy 1986 fod yr Undeb Sofietaidd â'u byd ar roi terfyn ar y ras arfau. Bellach mae'r mynnu eu bod cystal a'r U.D. arf am arf wedi mynd, ynghyd â'r 'bravado' hwrt am gystadlu a Reagan yn 'Star Wars' - rhywbeth â dylai wedi rhoi i Reagan esgys i barhau. Yn lle hynny, cynnig yr Undeb Sofietaidd oedd diddymu arfau niwcliar yn llwyr o fewn 15 mlynedd.

Roedd erthygl yn y 'Daily Telegraph' (30 Ionawr, 1986) yn un o nifer a fynegodd ofnau am ddiplomyddiaeth Sofietaidd: "(mae'r pwerau Gorllewinol) yn credu bod arfau niwcliar yn sicrhau na fydd y byd yn cael ei ddinistrio mewn trydydd rhyfel byd . . . ac na fydd yn achos hawdd ei ddadlau yn llys barn cyhoeddus."

Bwriad y Sofietaid yn Reykjavik yng nghyd-destyn hyn, oedd diddymu holl arfau niwcliar erbyn y flwyddyn 2000, ond nid oedd gan Reagan fwriad o gytuno i becyn diarfogi. Ei fwriad ef oedd torri ar nifer yr arfau niwcliar presenol fel bod gan gynllun 'Star Wars' well siawns o fod yn effeithiol. Nid yw'n syndod i Gorbachov ddweud 'na'.

Yr hyn a wnaeth strategaeth bargeinio Reagan felly, oedd lleihau'r perygl i'r Unol Daleithiau, tra'n cadw'n agored ar hyna wel ef fel 'trump card'. Cynigiodd yr Undeb Sofietaidd, i'r gwrthwyneb, becyn a fyddai wedi rhoi terfyn ar y ras arfau yn gyfangwbl ac hefyd wedi lleihau nifer yr arfau presennol. Beth bynnag a ddywedir nawr am agosrwydd cyntundeb, ni welaf i unrhyw dystiolaeth o feddyliau'n cyfarfod.

Yn anffodus, para mae'r dryswch oherwydd yn ol rhei awdurdodau mae'r cynllun SDI yn amhosib ei weithredu - sydd mwy na thebyg, yn wir yn ol fersiwn Reagan ar gyfer dibenion cysylltiadau cyhoeddus. Yn ei araith ar 23 Mawrth 1983, cafodd y blaen ar y Mudiad 'Freeze' gan gyflwyno'r cynllun fel un o ddiarfogi!

"Dylai'r enaid dynol allu codi uwchben delio â chenhedloedd eraill a bodau dynol trwy fygwth eu bodolaeth".

"Beth peth pobl rydd yn gallu byw yn ddiogel yn y wybodaeth nad oedd eu diogelwch yn dibynnu ar fygythiad o ddial gan yr Unol Daleithiau ar ymosodiad Sofietaidd; y gallem ddinistrio taflegrau strategol cyn iddynt gyrraedd ein tir, neu dir ein cynghreiriaid."

"Galwaf ar y gymuned wyddonol a roddodd i ni arfau niwcliar, i droi eu talentau at achos dynoliaeth a heddwch byd: i roi i ni ddull o wneud yr arfau hyn yn ddi-rym a di-werth."

Pe byddai, mewn gwirionedd, eisiau cael gwared â bygythiad arfau niwcliar, gellid gwneud hynny'n llawer rhatach trwy ddiarfogi. Ond byddai hynny yn rhoi diwedd ar y strwythyr filwrol-ddiwydiannol y mae ef a'i gefnogwyr yn dibynnu arno. Edrych y mae ar wariant arfau o driliwn o ddoleri, yn ynddangosiadol er mwyn cael heddwch byd.

Nid yw o bwys nad yw'r 'gymuned wyddonol' yn credu yn y 'darian amddiffynnol' (y leak-proof defensive shield) - y mwyaf y mae cefnogwr mwyaf brwd cynllun 'Star Wars' wedi ei honni hyd yma yw y byddai hwyrach 10% o'r taflegrau yn cael eu dinistrio. Ond eto, yn wyneb dirmyg byd-eang barn, gan wyddonwyr, a gwrthwynebiad i dalu amdano gan Gyngres yr Unol Daleithiau, mynna Reagan fynd ymlaen a'r cynllun.

Ond beth pe na bwriedir y cynllun arfau yn y gofod fel tarian amddiffynnol. Nodir y gellir defnyddio bron unrhyw arf yn y gofod mewn ymosodiad ar yr Undeb Sofietaidd. Meddyliwch, wedyn, petai'r Undeb Sofietaidd yn cyntuno i leihau ei thaflegrau mewn pecyn diarfogi honedig. Petai hyn oll yn digwydd, byddai'r cynllun yn rhoi i America ddominyddiaeth filwrol. Dyna pam y mynnodd Reagan yn Reykjavik nad oedd trafod i fod ar y cynllun.

Pe gellid ond defnyddio SDI ar gyfer amddiffyn, byddai Gorbachov wedi gallu derbyn pecyn Reykjavik a gadael i Reagan wastraffu ei driliwnau, eto gallai Gordefnyddio SDI fel system ymosodol, eto gallai Gorbachov fod wedi derbyn cytundeb Reykjavik. Faint bynnag y dirmygir SDI yn y gorllewin, mae'n amlwg fod yr Undeb Sofietaidd yn gweld y cynllun fel bygythiad posibl o ddifrif, ac mi fyddant yn derbyn mesurau diarfogi tra bydd parhad ar ei ddatblygiad.

Mae rhai pobl 'glyfer, glyfer' wedi dadlau "oherwydd na fydd SDI yn gweithio, yna dylai'r Undeb Sofietaidd adael i'w ddatblygiad fynd ymlaen", Mae'r rhai ohonom sydd â chôf hir yn gallu cofio clywed yr un peth am daflegrau Cruise yn 1972 - a ble 'rydym ni nawr? Dengys hanes y ras arfau niwcliar, dro ar ôl tro, mae'r amser gorau i stopio arf newydd yw cyn iddo gychwyn - nid hanner ffordd trwy'r broses o gynhyrchu a lleoli.

Ai gwastraff amser oedd Reykjavik? Yn bendant na. Dengys fod diarfogi yn bosib, a lle y dylid rhoi pwysau'r mudiad heddwch. Mae wedi gwahanu'r rhyfelgwn i'r fath raddau fel bod hyn yr oedd yr Arglwydd Carrington pennaeth gwleidyddol NATO wedi gorfod dweud y drefn wrth bwysigion NATO oherwydd eu gwrthwynebiad i'r trafodaethau. Am y tro cyntaf mewn dau ddegawd, mae gobaith gwirioneddol y gallai pwysau cynyddol o du'r mudiad heddwch sicrhau cytundeb diarfogi gwirioneddol.

# RALI CND CYMRU




Ar ôl protest tu allan i ROF Llanishen a gorymdaith bum milltir cynhaliwyd rali fwya'r flwyddyn ar y pedwerydd o Hydref yng Ngerddi Sophia, Caerdydd. Cyflwynwyd y siaradwyr gan Rhodri Glyn Thomas, Cadeirydd CND Cymru.

Y cyntaf ar y platfform oedd Ysgrifennydd y Blaid Lafur yng Nghymru, Anita Gale. Fe gyrhaeddodd hi a'i gwynt yn ei dwrn ac yn benysgafn o lawenydd o Gynhadledd y Blaid Lafur. Treuliodd y rhan fwyaf o'r amser yn brolio polisi amddiffyn di-niwcliar y Blaid Lafur oedd newydd gael sel bendith y cynhadleddwyr Tra'n cydnabod safiad di-niwcliar Plaid Cymru, yr SNP, y Comiwnyddion, y blaid Werdd a llawer o Ryddfrydwyr, pwysleisioedd mai'r Blaid Lafur oedd yr unig un a allai wireddu polisi o'r fath gan mai ganddyn nhw yn unig yr oedd unig obaith realistig o ffurfio Llywodraeth y tro nesaf. Plediodd am gymorth y gynulleidfa i ethol Llywodraeth Lafur adeg yr etholiad Cyffredinol nesaf gan mai hynny yn ei barn hi fydd y ffordd fwyaf effeithiol o sicrhau gweithredu polisiau gwrth-niwcliar.

Yn naturiol roedd cefnogwyr CND yn y rali yn cymeradwyo bwriad polisiau newydd y Blaid Lafur - ond roedd Anita Gale yn enghraifft berffaith o beryglon parti gwleidyddol yn ceisio ymelwa yn bleidiol ar y mudiad heddwch. A d'oedd yr Athro Gwyn Alf Williams ddim yn brin o ddweud hynny yn ei ffordd ddihafal ei hun. Dywedodd nad gwneud 'araith bleidiol wleidyddol' oedd ei fwriad wrth bwysleisio ymlyniad Plaid Cymru ers blynyddoedd i'r achos gwrth-Ar ôl cael yr 'hysbys' o'r neilltu, aeth yr Athro Williams ati hi i ddangos y diffygion yn y syniad tu ôl i'r bom 'Prydeinig', y bom 'Ffrengig', a'r bom 'Ewropeaidd' yn ogystal a NATO â pholisi ataliad ynddo'i hun. Yn sylfaenol meddai mae pob un ohonyn nhw'n dod dan gysgod yr ambarel Americanaidd. Collfarnodd yn chwyrn ddylanwad llwgwr a threiddiol y Sefydliad Americanaidd pan geision nhw ymyrryd yn ddiweddar a'r broses etholiadol ddemocrataidd ym Mhrydain. Cymharodd eu dulliau i'r Maffia a'u traarglwyddiaethu ym mywyd gwleidyddol De yr Eidal. Yr unig ffordd i gael newid yn y drefn meddai ydi i'r bobol ail afael mewn 'gwladgarwch'. Dyna fyddai'r cam cynta' meddai yn y broses o ymrafael gyda'r Llywodraeth a'r wladwriaeth am bwer. Os bydd gallu'r wladwriaeth yn edwino ai peidio mae un peth yn sicr - araith Gwyn Alf Williams oedd pinacl y pnawn - a sbardunodd ei rethreg i Rhodri Glyn Thomas ddweud mai dyma'r tro cyntaf iddo fo beidio a bod yn siomedig ynglyn ag absenoldeb Dafydd Elis Thomas mewn rali.

Joan Ruddock, dirprwy gadeirydd CND Prydain, oedd yr olaf o'r siaradwyr gwadd i annerch. Roedd hi'n mawr obeithio y byddai holl aelodau CND yn ceisio cael pob ymgeisydd seneddol yn yr etholiad nesaf, waeth beth fyddai ei liw gwleidyddol, i ymrwymo o blaid polisi gwrth niwcliar. Ei gobaith mawr hi oedd y byddai mwyafrif sylweddol yn Nhy'r Cyffredin ar ôl yr etholiad nesaf fyddai yn wrth niwcliar. Cyfeiriodd hefyd at sylwadau diweddar Ysgrifenydd Amddiffyn America, a dwedodd y byddai'r rhan fwyaf ymhlith aelodau CND yn croesawu y senario roedd o'n ragdybio fyddai'n digwydd gyda galw cynyddol led led y byd am ddiarfogi niwcliar fyddai'n y diwedd yn golygu darnio Cynghrair NATO. Gorffenodd ei haraith drwy lansio EPIC II.

Rhoddwyd cymaradwyaeth fyddarol i'r protestiwr hawliau sifil o America Paul Robeson Jnr. a alwodd yn y rali ar ôl bod yn Eisteddfod y Glowyr ym Mhorthcawl. Llongyfarchodd y mudiad heddwch yng Ngwledydd Prydain am wneud pobol yn fwy ymwybodol o'r pynciau sy'n gysylltiedig a phwer niwcliar a'r canolfannau milwrol Americanaidd. Prawf o lwyddiant y mudiad meddai oedd ymateb y cyhoedd i Chernobyl a bomio Libya gan America. Roedd o'n obeithiol y deuai pethau mawr yn sgil penodi Mikhael Gorbachev yn arweinydd y Sofietaid. Ac ar ol ymweliad personol a Rwsia yn ddiweddar roedd o'n teimlo fod y Llywodraeth yno yn ddiffuant ynglyn a'u hymrwymiad i leihau nifer yr arfau a diwygio'r drefn gymdeithasol yno. Gwrthodai Paul Robeson gydnabod Ronald Reagan fel ei arlywydd o, a rhybuddiodd y gynulleidfa i fod yn ochelgar o ddelwedd llawn hwyl ac asbri yr arweinydd. Yn ôl Mr. Robeson fo oedd rhyfelgi mwya'r ganrif a'r bygythiad mwya bellach i heddwch y byd. Croesawodd bolisi newydd y Blaid Lafur ar amddiffyn a'i ddisgrifio fel cam pwysig i'r cyfeiriad iawn. Wrth dynnu at y terfyn mynygodd ei fydd yn y mudiad heddwch yng Ngwledydd Prydain fel corff arloesol, a'i obaith oedd y byddai pobol America yn dilyn yr un llwybr. Diolchodd Rhodri Glyn Thomas i Paul Robeson am ddod draw er gwaetha prysurdeb ei raglen ymweld. Crynhodd hefyd rai o brif bwyntiau y siarawdwyr gwadd a chyn cau ddaru Rhodri diolch i bawb am gymryd rhan mewn diwrnod llwyddiannus o brotestio.

# ADRODDIAD O BROSIECT MÔR YR IWERDDON

Yn ystod yr hâf eleni ymgymerodd y Prosiect a arolwg ar lefelau llygredd niwcliar yn aber y Teifi. Ar 30 Medi rhoddwyd copi o'r casgliadau i Bwyllgor Amddiffyn y Cyhoedd, Cyngor Sir Dyfed Cyn cael unrhyw fath o gyhoeddusrwydd fodd bynnag cododd cythrwfl. Pleidleisioedd hanner y cynghorwyr oedd yn bresennol yn erbyn rhoi gwrandawiad i'r cyfryw a gadawodd rhai y Siamber mewn protest.

Dengys yr Adroddiad fod gwastraff niwcliar Sellafield yn aber y Teifi. Gan mai hwn yw'r arolwg cyntaf ar y cyfryw gellir tybio na wyddys eto'n llawn am wir ddimensiwn y broblem. Credir yn gyffredinol bellach fod ymbelydredd lefel-isel yn bygwrth iechyd. Gwyddys hefyd fod yr heintiau hynny a gysylltir a ymbelydredd megis liwcimia yn digwydd mewn clystyrau o gwmpas sefydliadau niwcliar. Tuedda llygredd ymbelydrol i hel yn yr aberoedd ac felly gellir disgwyl yr un problemau iechyd hir-dymor ymŷsg poblogaeth Aberteifi.

Gwnaethpwyd amryw o argymhellion i'r cyngor. Yn gyntaf, dylid comisiynu arolygiadau pellach ar ymbelydredd yn yr amgylchfyd - yn y Teifi yn ogystal ag aberoedd eraill yn Nyfed. Yn ail, dylid cynnal arolwg i effeithiau ymbelydredd y Teifi ar amaethyddiaeth lleol. Yn drydydd ymgymryd ag astudiaeth sylfaenol o ystadegau iechyd fel y gellid nodi unrhyw gynnydd mewn salwch a chysylltiadau niwcliar iddo. Yn olaf ac yn bwysicaf oll, argymellwyd i'r cyngor wneud cais ar i Danwydd Niwcliar Prydeinig Cyf. dorri i lawr ar arllwys gwastraff i'r môr at ddim, gan mai eu blerwch rhyfygus hwy yn Sellafield a achosodd y broblemau yn y lle cyntaf.

Os na phrotestiwn ac os na chymerir unrhyw sylw o'n rhybuddion, byddwn yn gadael i'n plant etifeddu nid yn unig heintiau a marwolaeth (geill y difrod genetig lleiaf difrifol achosir gan ymbelydredd lefel-isel ymddangos fel asthma, alergiau neu glefyd-siwgr-yr-ieuanc) ond hefyd byd sydd wedi ei lygru tu draw i adferiad mewn dull nas gwelwyd o'r blaen. Mae hir-hel y llygrion mewn planhigion, anifeiliad a phobl yn anorfod. Achosir difrod anrhaethol genetig ar yr holl genhedlaethau i ddod. 'rydym yn araf ond sicr yn newid amodau datblygiadau bodolaeth. Geill rhai mathau ar fywyd addasu ar gyfer yr amodau byw newydd tra diflanna eraill. Ni wyddys i ba gategori y perthyn dynoliaeth.

Cyswllt - David Gillam, Fferm Crug, Ferwig, Aberteifi (0239) 615066.

## CAU KAUFMAN ALLAN O FYNCAR DRUD CAERFYRDDIN

Dydd Sadwrn, 13 medi - 12 mis union i ddyddiad meddiannu byncar Caerfyrddin - ymgasglodd protestwyr ar y safle i drafod y syfyllfa gyda Gerald Kaufman, llefarydd y Blaid Lafur ar faterion cartref. Mynegodd Mr. Kaufman ei gydymdeimlad a'i gefnogaeth i'r ymgyrch yn erbyn y byncar a sicrhaodd y protestwyr na fyddai amddiffyn sifil yn cynnwys paratoi at ryfel niwcliar pe bai llywodraeth Lafur mewn gyrm.

Gofynnodd Mr. Kaufman am gael gweld y byncar a gostiodd £400,000 ond gwrthodwyd ei gais. Dywedwyd nad oedd ymweliad yn bosib ar ddydd Sadwrn a bod y byncar, p'run bynnag, yn anniddorol ac yn beryglus (ac yn llawn dwr, medden nhw!) Ydi'r llywodraeth Doriaidd, felly, am ymwrthod a rhyfel niwcliar dros y penwythnos?

Yn bresennol yn y cyfarfod roedd llawer o'r 17 sy'n dal mewn perygl o gael eu gwneud yn fethdalwyr oherwydd y cyhuddiadau o gynllwyn yn eu herbyn. Pwysodd Mr. Kaufman ar gynrychiolwyr Cyngor Dosbarth Caerfyrddin i ollwng y cyhuddiadau ac fe'i sicrhawyd y byddai'r cyngor yn derbyn ei neges. Hyd yn hyn, fodd bynnag, nid yw'r cyngor wedi mynd ymlaen a'r cyhuddiadau nac ychwaith wedi eu gollwng.


Ddydd Mercher, 18 Hydref, penderfynodd ynadon Caerfyrddin bod tystiolaeth Sue Pitman a Michael Reed yn dangos bod achos 'prima facia' yn erbyn Dyfrig John Nicholas, y swyddog diogelwch a gyflogir gan Pritchard's ac a gyhuddir o achosi niwed corfforol difrifol i Sue Pitman ar 11 Ionawr, 1986. Bydd yr achos yn cael ei draddodi o flaen rheithgor yn Llys y Goron.

## Mr. BUGG AC IS–DDEDDFAU BREUDETH

I Freudeth yn fuan daw Mr. John Bugg, y cyn blismon a lwyddodd i herio 27 o is-ddeddfau'r Weinyddiaeth Amddiffyn a fwriadwyd i rwystro protestiadau yng nghanolfan Llu Awyr America yn Mildenhall, Suffolk. Bydd Mr. Bugg yn cynnig cyngor i ymgyrchwyr a gyhuddir o dorri deddfau tebyg yn yr orsaf tracio llongau tanfor sydd gan America ym Mreudeth. Yn gynharach eleni, dadleuodd Mr. Bugg yn llys ynadon Mildenhall bod yr is-ddeddfau a gyflwynwyd gan y cyn-Ysgrifenydd Amddiffyn, Michael Heseltine, yn anghyfreithlon gan nad aeth drwy'r defn seneddol gywir.

NEWYDDION DIWEDDARAF: Mae John Bugg wedi gael ei anfon i Garchar Bedford am dori amodau fechniaeth. Cardoai a llythyrau o gefnogaeth, pawb; efallai fydd o yno am fisoedd!

## ENILLWYR RAS HEDDWCH CND CYMRU EISTEDDFOD ABERGWAUN




Prynwr y cerdyn ar y balwn a aeth bella yw: - Non Ifan, 102 Heol Ninian, Y Rhoth, Caerdydd. Bydd Non yn derbyn gwobr o £25.00 yn y post. Anfonwyd y cerdyn hwn yn ol o Wlad Pwyl gan Henryk Wypych, 05 - 100 Wotomin Zagosciniec 98B. Bydd Henryk hefyd yn derbyn siec am £25.00.

Derbynwyd yn ol: 1 cerdyn o Ddwyrain yr Almaen; 5 o Orllewin yr Almaen; 3 o'r Isel Diroedd; 68 o Loegr; 71 o Gymru. (Cyfanswm: 153). Rhyddhawyd cyfanswm o 1624 o falwns o faes Eisteddfod Abergwaun rhwng dydd Sadwrn Awst 2 a dydd Sadwrn Awst 9.

## I BLANT CND – FFRINDIAU DRWY'R POST!

I ymgyrchwyr gwrth-niwcliar rhwng 8 a 18 a hoffai gysylltu a phobl o'r un oed a'r un farn. Lansiwyd y clwb lai na 3 mis yn ol ond eisoes ymunodd bron i 50. Os oes gennych ddiddordeb (os ydych yn aelod o YCND Cymru ai peidio) cysylltwch a: - Rhiannon David (15 oed), 10 Glenview Court, Pentwnmawr, Gwent NP1 4HW.

WAR ON WANT

CYMRU


Cymorth Cristnogol
Christian Aid

# CND CYMRU

## "Wheels Around Wales"

**TAITH BEICIO NODDEDIG
O GWMPAS CYMRU
DDI—NIWCLIAR**

**A FUND RAISING CYCLE - RIDE
AROUND NUCLEAR- FREE WALES**



Annwyl Ffrindiau,

Erbyn rwan anfonwyd llythyr i bawb, sy'n disgrifio'r taith beic noddedig o gwmpas Cymru Ddi-Niwcliar blwyddyn nesaf. Tybiwn eich bod yn casgly arian gyda brwdfrydedd!

Mae calendr llawn o ddigwyddiadau yn cael ei baratoi ar gyfer pythefnos diwethaf mis Chwefror; mae grwpiau ar hyd y cwrs yn trefnu gweithgareddau i gyd-ddigwydd a'r taith yn barod, ac mae nifer fawr o bobl wedi cynnig cymorth a cydweithrediad. Diolch - mae angen llawer mwy! Gobeithio bydd grwpiau heddwch trwy Gymru (nid yn unig y rhai sydd ar yr afordir neu'r ffin) yn gallu ymuno a'r ymdrech uchelgeisiol a cyffrous yma er bydd CND Cymru, War in Want (Cymru) a Cymorth Cristnogol. Os yw pethau'n dawel yn eich hardal chi ar hyn o bryd, beth am ymuno a rhai o gefnogwyr lleol eraill ar gyfer y digwyddiad arbennig yma.

Mae'r elysennau yn gweithio ochr yn ochr â'r eglwysi, Undebau Llafur, Cynghorau a bob math o sefydliadau eraill, i wneud y cysylltiadau rhwng y ras arfau a newyn. Bydd yr ymgyrch yn symud ymlaen ar lefel gwleidyddol (gan marcio allan Cymru Ddi-Niwcliar) ar lefel cymdeithasol (gan cydweithio â grwpiau sy'n cynrychioli cylch eang o achosion) yn ogystal ag ar lefel ariannol. Bydd swyddogion a gweithwyr CND Cymru yn cyfrannu llawer o'u hegni a'u hamser, ac mae nhw'n barod i helpu hysbysu eich digwyddiadau.

Bydd teithlyfr manwl yn ymddangos yn 'Ymgyrch Cymru' mis Rhagfyr, erbyn hynny byddwn wedi dechrau rhestr hir o weithgareddau Wythnos Cymru Ddi-Niwcliar. Gyda'n gilydd, fe allwn ni wneud bom!

MORGAN PARRY (0286) 870892
a MARTIN ASHBY (0654) 3109

Dear Friends,

You should all by now have had a letter from us which described our fundraising cycle ride around Nuclear Free Wales next year. We expect you are eagerly collecting sponsor money and donations!

A whole calender of events is being planned for the last two weeks of February; groups along the route are already organising fundraising activities to coincide with the ride, and we have had many offers of help and cooperation. Thank you, we need many more! We hope that CND and peace groups throughout Wales (not just on the coast and border) will be able to join in with this ambitious and exciting effort in aid of CND Cymru, War on Want and Christian Aid. If things are quiet in your area at the moment, why not get together with other local supporters just for this special occasion?

The Aid charities will be working alongside Churches, Trade Unions, Councils and a host of other organisations to make the links between the arms race and poverty. This will also move the whole campaign forward politically (by marking out Nuclear Free Wales), socially (by involving groups representing a wide range of concerns) as well as financially. CND Cymru's officers and workers will be putting in a lot of time and effort and will help promote your events. A detailed itinerary will appear in December's 'Campaign Wales' by which time we will have begun a long list of local fundraising activities for Nuclear Free Wales Week.

TOGETHER WE CAN MAKE A BOMB!
MORGAN PARRY (0286) 870892
and MARTIN ASHBY (0654) 3109

# *Dyddiadur*

| | |
|---|---|
| Tachwedd 1 | Protest Capenhurst, a'r ymgyrch Caseg Eira. |
| Tachwedd 12 | Cyfarfod nesaf o Fforwm Ddi-niwcliar Cymru Gyfan, Gorllewin Morgannwg. |
| Tachwedd 14 - 16 | Cynhadledd CND Prydain yn Blackpool. |
| Tachwedd 28 - 30 | Cynhadledd Flynyddol CND Cristnogol yng Ngholeg Prifysgol Cymru, Caerdydd. |
| Tachwedd 29 | Clustnodi'r llwybrau ar gyfer yr osgordd. |
| Rhagfyr 12 - 13 | "Confront the Fence" yn Greenham. (manylion pellach mis nesaf) |

# *Diary Dates*

| | |
|---|---|
| November 1 | Capenhurst Demonstration and Snowball. |
| November 12 | Next meeting of All Wales Nuclear Free Forum, West Glamorgan. |
| November 14 - 16 | British CND Conference, Blackpool. |
| November 28 - 30 | Christian CND Annual Conference at University College, Cardiff. |
| November 29 | "Marking the Convoy Routes". |
| December 12 - 13 | "Confront the Fence" at Greenham - 3 years on from siting of Cruise missiles in Britain. (details next month) |